Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru — South Wales Fire and Rescue Service

# Cydlynydd Digwyddiadau Gemau'r Cadetiaid Tân

**Rhif y Swydd 505684 12M FTC**

**Gradd 12 CYFLOG: £38,223 - £39,186 y flwyddyn**

**37 awr yr wythnos**

Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n cynnal y Gemau Cenedlaethol i Gadetiaid Tân yn 2025 sydd wedi arwain at gyfle cyffrous o fewn yr Adran Diogelwch Cymunedol ar gyfer rôl Cydlynydd Digwyddiadau Gemau'r Cadetiaid Tân. Bydd y rôl wedi'i ganoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant ac yn cynnwys gweithio â Rheolwr Cadetiaid Tân y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC) ynghyd â thîm bychan, dethol o fewn GTADC.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn defnyddio'i brofiad rheoli prosiect wrth oruchwylio cynllunio, cydlynu a gwireddu'r gemau. Hefyd, byddant yn gyfrifol am sicrhau fod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn esmwyth, yn ddiogel ac o fewn y gyllideb wrth ddarparu profiad bythgofiadwy i'r holl gyfranogwyr a mynychwyr. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu fel prif fan cyswllt yr holl gyfranddalwyr gan gynnwys cyfranogwyr, gwasanaethau tân ac achub eraill, noddwyr, gwerthwyr a phartneriaid cymunedol.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

I ganfod mwy ynghylch y rôl swydd hon, cysylltwch â'r Rheolwr Grŵp Richie Smart drwy law e-bost r-smart@decymru-tan.gov.uk neu wrth ffonio: 01443 232319.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf Os bydd angen fersiwn bapur arnoch chi, mae croeso i chi anfon e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk

Byddwch yn ymwybodol y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; sicrhewch eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw: 12:00 ganol dydd ar y 14 o Hydref 2024.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwerth gwirioneddol cael gweithlu amrywiol a dymunwn annog yn rhagweithiol i ymgeiswyr o bob sector cymdeithas ymgeisio.**

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg ar waith.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad cofnod troseddol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd yn ofynnol iddo ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.